



Dinas a Sir Abertawe

## Cofnodion Cyfarfod y **Panel Perfformiad Craffu - Addysg**

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 21 Ionawr 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol:** Y Cyngorydd L R Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Y Cyngorydd(wyr)**

C Anderson  
S J Gallagher  
L James

**Y Cyngorydd(wyr)**

A M Day  
D W Helliwell  
S M Jones

**Y Cyngorydd(wyr)**

M Durke  
B Hopkins  
M A Langstone

**Aelodau**

**Cyfetholedig(wyr)**

D Anderson-Thomas

**Aelodau**

**Cyfetholedig(wyr)**

A Roberts

**Aelodau Cyfetholedig(wyr)**

**Mynychwyr eraill**

J A Raynor

**Swyddog(ion)**

Helen Morgan-Rees  
Michelle Roberts

cyfarwyddwr addysg  
Scrutiny Officer

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cyngorydd(wy): Dim

---

**1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Datganodd y Cyng. Susan Jones gysylltiad personol.

**2 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Dim

**3 Llythyrau a'r Cofnodion**

Adolygodd y panel y llythyrau a'r cofnodion yn dilyn cyfarfod y panel ar 17 Rhagfyr 2020.

**4 Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 5 Diweddariad ar Gynllun Adfer Addysg Covid

Rhoddodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau a'r Cyfarwyddwr Addysg ddiweddariad ar lafar i'r panel ar sefyllfa bresennol COVID-19 ym myd Addysg. Nodwyd y canlynol o'r diweddariad a'r drafodaeth a gafwyd.

- Mae sefyllfa COVID-19 yn dal i fod yn rhwystr ond mae strategaethau eraill yn parhau i gael eu datblygu gan gynnwys, er enghraifft, Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol, Cwricwlwm Newydd, datblygiad proffesiynol a'r strategaeth ymddygiad.
- Mae'r sefyllfa yr ydym ynddi yn dal i fod yn un anwadal. Mae ysgolion ar agor i ddisgyblion diamddiffyn a phlant gweithwyr allweddol. Mae amrywiaeth eang o weithwyr allweddol bellach wedi'u nodi felly rydym wedi rhoi ystyriaeth briodol i hyn ond mae'n rhaid i ni gynnal asesiadau risg yn ein hysgolion er mwyn sicrhau y gallwn ddarparu ar eu cyfer yn ddiogel.
- Rydym wedi newid yn ôl i ddysgu o bell ar gyfer y mwyafrif o ddisgyblion. Mae eithriad ar gyfer blynyddoedd 10, 11, 12 a 13 o bedair awr o ddysgu cydamseredig y dydd. Nid ydym ni fel awdurdod lleol yn rhagnodi'r hyn y dylai ysgolion fod yn ei wneud. Y rheswm am hynny yw oherwydd bod gennym gymunedau amrywiol. Credwn fod ein penaethiaid yn adnabod eu cymunedau orau. Maent yn gwybod pa fath o ddysgu cyfunol neu gynnig dysgu o bell y dylid ei ddarparu i'w disgyblion.
- Mae gan y rhan fwyaf o'n disgyblion ar draws Abertawe gyfuniad o wersi wedi'u recordio, rhai gwersi byw, pecynnau papur a llyfrau gwaith. Bydd y cyfuniad yn dibynnu ar oed a doniau'r disgybl. Mae ysgol rithwir Abertawe wedi'i gwella a'i hadolygu'r tymor hwn.
- Dyfeisiau ar gyfer disgyblion, dysgu digidol a chynhwysiad digidol. Rydym wedi buddsoddi dros £5 miliwn o bunnoedd drwy'r prosiect isadeiledd o ran cit a chysylltedd. Hyd yma, rydym wedi dosbarthu dros 8,000 o ddyfeisiau i'n hysgolion yn Abertawe ac, yn ogystal â hynny, mae gennym 2,000 o ddyfeisiadau sy'n cael eu paratoi i'w dosbarthu, a disgwylir y bydd 2,000 o ddyfeisiau yn ychwanegol yn cael eu dosbarthu. Rydym yn falch o'r cyflawniad hwnnw. Bydd y sefyllfa hefyd yn parhau i gael ei monitro, gan ein bod yn ymwybodol nad oes gan rai o'n teuluoedd y dyfeisiau mwyaf priodol a bod rhai plant yn rhannu dyfeisiau.
- Gofynnodd y panel a all y rheini sydd wedi defnyddio dyfeisiau o'r blaen eu rhoi i ysgolion. Dywedodd y Cyfarwyddwr y gallent, os yw'r ddyfais yn briodol gallant gysylltu ag ysgolion uwchradd yn uniongyrchol gan fod ganddynt y staff TGCh i'w paratoi i'w defnyddio gan ddisgyblion. Os bydd unrhyw un am roi dyfais i Ysgol Gynradd yna gallant e-bostio [addysg@abertawe.gov.uk](mailto:addysg@abertawe.gov.uk) gan nad oes gan Ysgolion Cynradd staff TGCh i wneud hyn.
- Codwyd y mater sy'n ymwneud â'r cyhoeddiad a wnaed ar 16 Ionawr am arholiadau ac asesiadau yn ein hysgolion. Bydd yr asesiad ar gyfer tymor yr haf hwn ar ffurf asesiadau athrawon, ni fydd arholiadau ond bydd asesiadau yn yr ysgol ac ni fydd asesiadau allanol. Felly, byddai disgyblion yn debygol o gael eu hasesu gan ddefnyddio ffug arholiadau/asesiadau blaenorol. Bydd y byrddau arholi yn helpu trwy ddarparu fframwaith asesu a fydd yn rhoi prawf safoni cam cyntaf. Ar ôl hynny, bydd rhywfaint o gymedroli ar draws ysgolion ac ar draws gwaith disgyblion ond mae'r awdurdod yn aros am ragor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru ynghylch hyn. Cytunodd Aelod y Cabinet i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r panel o ran y cynnydd.

- Cododd y panel y mater o dlodi digidol cenedlaethol a'r angen i fynd i'r afael â hyn ar lefel genedlaethol yn y dyfodol. Clywodd y panel fod yr awdurdod lleol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar y materion hyn. Yn bendant, mae angen edrych ar gysylltedd yn y dyfodol.
- Gofynnodd y panel faint o ddisgyblion nad oedd ganddynt ddyfeisiau ar hyn o bryd. Clywodd y panel nad oes gan tua 2,000 o ddisgyblion ddyfeisiau priodol yn ôl arolwg diweddar, er enghraifft dyfeisiau gemau, ond eu bod yn gallu cael mynediad at ddysgu i ryw raddau. Mae'r nifer hwn yn debygol o fod yn is o lawer gan fod pethau wedi symud ymlaen ychydig ers yr arolwg hwnnw ac mae rhagor o gyfarpar wedi dechrau mynd allan i ysgolion. Hoffai'r panel weld yr wybodaeth gyfredol pan fydd ar gael, gan gynnwys faint o ddisgyblion ar Brydau Ysgol am Ddim sydd angen cyfarpar neu gysylltedd.
- Mae angen magu hyder yng ngweithlu ein hysgolion i dychwelyd i adeiladau ar ôl clywed bod yr hil newydd yn llawer mwy heintus a bod plant yn fwy tueddol o'i chael. Mae gennym dystiolaeth nad yw'r gweithle ei hun yn anniogel a bod angen defnyddio'r un mesurau rheoli fel o'r blaen ond mae angen gwella'r rhain. Cynhelir trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol. Mae rhywfaint o'r hyn sy'n cael ei drafod yn cynnwys pa grwpiau oedran fydd yn dychwelyd yn gyntaf ond bydd yn dibynnu ar y gyfradd R. Mae Llywodraeth Cymru wedi addo cynnal trafodaethau gyda'r proffesiwn i alluogi hyn.
- Os na fydd y gyfradd R yn gostwng yn sylweddol, ni fydd disgyblion yn dychwelyd tan ar ôl 22 Chwefror. Does dim syniad gennym sut beth bydd hynny yn y dyfodol ar hyn o bryd, ond byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r panel wrth i ni ddysgu rhagor.
- Bydd staff sy'n gweithio gyda phlant diamddiffyn sy'n cael gofal ysbeidiol yn gallu cael eu brechu ynghyd â'r rhai sy'n gweithio gyda disgyblion diamddiffyn yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion.
- Mae blaenoriaethau allweddol yn parhau i gael eu datblygu gan gynnwys:
  1. diogelu ac ymgysylltu ar ofal bugeiliol a lles
  2. rhaglen adeiladu gan gynnwys trosglwyddo UCD newydd yr wythnos nesaf
  3. Gweithredu deddf rhaglen ADY erbyn mis Medi 2021
  4. strategaeth allweddol ynghylch strategaeth dysgu cyfunol
  5. strategaeth ymddygiad cadarnhaol a chynllun gweithredu
  6. Cynllun rhoi ar waith ar gyfer y cwricwlwm yn lleol 2019-2022 3ydd cam; a
  7. gwella arweinyddiaeth ar draws ysgolion yn Abertawe (cynhelir rhaglen genedlaethol i ddatblygu arweinwyr ar hyn o bryd gan ERW).
- Gwariant PDG a GDD, pam mae tanwariant a sut y caiff ei ddefnyddio. Hoffai'r panel gael rhagor o wybodaeth am y tanwariant hwnnw a pham, os nad yw clystyrau'n defnyddio eu harian a pham. Clywodd y panel na fydd pob hawliad wedi ei dderbyn ar gyfer yr arian a wariwyd ond cânt eu derbyn dros y chwarter hwn o'r flwyddyn, mae'n debygol y bydd y tanwariant a ddangosir yn lleihau.
- Diolch i'r Cyfarwyddwr a staff ysgolion am eu gwaith drwy'r cyfnod heriol hwn.
- Cododd y panel y mater o sut rydym yn cefnogi ysgolion i gyfleu disgwyliadau i rieni a disgyblion. Dywedodd y panel ei fod yn fater o gydbwysedd a'r hyn sy'n addas i ysgol benodol a grŵp oedran penodol, a'i bod hi'n bwysig cael cynnig dysgu derbynol. Rhoddodd yr awdurdod lleol arweiniad ar ddysgu cyfunol i'r ysgolion a gallant gyfleu hyn i rieni. Mae gan bob ysgol anghenion iaith a hygyrchedd gwahanol, felly rhoddir offer ac arweiniad da a chlir i ysgolion fel y gallant gyfathrebu â rhieni sy'n cael eu cefnogi gan yr awdurdod lleol.

- Mae pwysau ar staff cymorth addysgu ac addysg, pa adnoddau sydd eu hangen i sicrhau cymorth priodol i athrawon sy'n ei chael hi'n anodd a hefyd cwnsela. A oes angen adnoddau ychwanegol? Cododd fforymau ysgolion y mater hwn hefyd. Rydym yn darparu rhestr dda o adnoddau a sut y gellir eu cyrchu. Nid yn unig o ran cyfeirio ond gwneud mwy na'r hynny – cynnig sesiwn gyda seicolegydd addysg lle defnyddir model seicoleg cadarnhaol y gellir ei ddefnyddio mewn argyfwng a chyfleoedd gan academi genedlaethol i gael trafodaethau *Headspace* a llinell gymorth addysg (sydd hefyd â chynnig cyfrwng Cymraeg)
- Dywedodd Aelod y Cabinet fod ysgolion a'r Adran Addysg wedi'u calonogi i glywed am adroddiad Estyn a gyhoeddwyd yn ddiweddar sy'n rhoi nifer o grynodedau bach o enghreifftiau o arfer da. Efallai y bydd craffu am drefnu i ddadansoddi hyn yn fanwl. Mae'n cynnwys llythyr sy'n benodol i Abertawe a'r adroddiad cenedlaethol ar sut mae addysg wedi ymateb i'r pandemig. Bydd y panel yn trefnu amser ar gyfer hyn yn eu rhaglen waith.

## 6 Cynllun Gwaith 2020/2021

Adolygodd y panel y rhaglen waith.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.20 pm

**Cadeirydd**